June 2017 – January 2018

*Mehefin 2017 – Ionawr 2018*

# lolfa L3 lounge




St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

lolfa L3 lounge

CARDIFF
CAERDYDD

Enjoy the relaxed and informal surroundings of our L3 Lounge, which offers an intimate experience and a welcoming bar.

*Dewch i fwynhau awyrgylch hamddennol braf Lolfa L3, sy'n cynnig profiad mwy agosatoch a bar croesawgar.*

**Enjoy a pint of Carling, Worthington's, Brains and Stowford Press Cider on draught for only £3 per pint. Available on selected performances only, from 7pm until the bars close. Look out for the highlighted performances in this brochure.**

***Cewch fwynhau peint o Carling, Worthington's, Brains a Stowford Press Cider ar y tap am £3 y peint. Dim ond i rai sioeau y mae'r cynnig hwn ar gael, o saith o'r gloch yr hwyr tan amser cau'r bar. Mae'r sioeau wedi'u hamlygu yn y llyfryn hwn.***

Hynt is a national scheme that works with theatres and art centres across Wales to make things clear and consistent in fair ticketing policy and accessibility. Hynt cardholders are entitled to a ticket free of charge for a personal assistant or carer at St David's Hall. Visit our website for more information.

*Cynllun cenedlaethol sy'n cydweithio â theatrau a chanolfannau celfyddydau o Fôn i Fynwy yw 'Hynt', er mwyn sicrhau hygyrchedd a pholisi tocynnau clir a chyson. Mae deiliaid cardiau Hynt yn gallu hawlio tocyn am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant. Ewch i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth.*

Ticket prices marked with * include a Ticket Service Charge of £3.95 per transaction and an optional £1 postage fee for tickets to be posted.

*Mae prisiau'r tocynnau sydd â * wrth eu hymyl yn cynnwys Tâl Gwasanaeth Tocynnau o £3.95 yr archeb a chodir ffi postio o £1 i bostio'r tocynnau.*

Tuesday 27 June / *Dydd Mawrth 27 Mehefin*, 8pm



# RACHEL NEWTON BAND

Winner of the BBC Radio 2 Folk Awards 2017 Musician Of The Year, Scottish singer and harpist Rachel Newton (The Furrow Collective, The Emily Portman Trio, The Shee), has released three solo albums featuring her own compositions including 2016's critically acclaimed, *Here's My Heart Come Take It*. Rachel also plays fiddle and viola alongside her stunning new 5-piece band; Sarah Hayes (keys and vocals), Michael Owers (trombones), Lauren MacColl (fiddle/viola) and Mattie Foulds (drums), who perform songs in English and Scottish Gaelic, alongside original instrumental compositions.

*Y gantores a'r delynores o'r Alban Rachel Newton (The Furrow Collective, The Emily Portman Trio, The Shee) oedd enillydd Cerddor y Flwyddyn Gwobrau Gwerin BBC Radio 2 2017. Mae wedi rhyddhau tri albwm solo o'i chyfansoddiadau ei hun gan gynnwys* Here's My Heart Come Take It *o'r flwyddyn 2016 oedd yn fawr ei glod gan y beirniaid. Mae Rachel hefyd yn canu'r ffidil a'r fiola ochr yn ochr â'i band pum darn newydd aruthrol: Sarah Hayes (allweddellau a llais), Michael Owers (trombonau), Lauren MacColl (ffidil/fiola) a Mattie Foulds (drymiau), sy'n perfformio caneuon yn Saesneg a Gaeleg yr Alban ochr yn ochr â chyfansoddiadau offerynnol gwreiddiol.*

*'Harp and strings blur the border between worlds.'*
**The Financial Times**

£14* in advance, £15* on the day / *£14* ymalen llaw, £15* ar y diwrnod*
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £1 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1 yr rhatach*

£3 pint promo/ *cynnig peint £3*

* Plus a Ticket Service Charge of £3.95 per transaction
** Yn ogystal â Thâl Gwasanaeth Tocynnau o £3.95 fesul trafodyn*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Synau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

Monday 24 July / *Dydd Llun 24 Gorfennaf*, 8pm



# FOLK PROM GWERIN – JOSIENNE CLARK & BEN WALKER

featuring / *yn cynnwys* The Mavron Quartet

While much of their music is characterised by lush chamber ensemble orchestration, what truly sets their music apart is the combination of Josienne Clarke's divinely nuanced voice and Ben Walker's intricately expressive guitar technique. They cite Sandy Denny, June Tabor, Nic Jones and Pierre Bensusan as influences but their captivating sound is all their own. For this special concert Josienne and Ben will be joined by St David's Hall's Ensemble in Residence **The Mavron Quartet** adding an extra dimension to their exquisite music.

---

*Offeryniaeth ensemble siambr foethus sy'n nodweddu llawer o'u cerddoriaeth, ond yr hyn sy'n eu rhoi ar eu pennau'u hunain ydi'r cyfuniad o lais Josienne – ac iddo arlliwiau nefolaidd sy'n cyffroi'r teimladau – a thechneg gitâr Ben sy'n ddeheuig ac yn gywrain o gyfleugar. Maen nhw'n sôn am ddylanwadau Sandy Denny, June Tabor, Nic Jones a Pierre Bensusan, ond iddyn nhw'u hunain yn ddigamsyniol y perthyn eu naws gyfareddol. Yn y cyngerdd arbennig yma daw Ensemble Preswyl Neuadd Dewi Sant* ***Y Mavron Quartet*** *at Josienne a Ben gydag ychwanegu gwedd eto at eu cerddoriaeth odiaeth.*

*'Josienne Clarke sings like a haunted angel.'*
**The Financial Times**

£14* in advance, £15* on the day / *£14* ymalen llaw, £15* ar y diwrnod*
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £1 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1 yr rhatach*

* Plus a Ticket Service Charge of £3.95 per transaction
* *Yn ogystal â Thâl Gwasanaeth Tocynnau o £3.95 fesul trafodyn*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-eang ac Awyrgylch Braf

Tuesday 19 September / *Dydd Mawrth 19 Medi*, 8pm



# MARTIN SIMPSON

Universally acclaimed as one of the finest ever acoustic and slide guitar players, and a fine banjo-picker to boot, Martin Simpson is an artist at the very top of his game. Whether interpreting material from the tradition or singing his own songs, Simpson is a captivating and profoundly moving storyteller. Without question a virtuoso who performs with a rare subtlety, intensity and honesty, Martin Simpson's eagerly awaited new solo album entitled *Trails and Tribulations* will be released in September 2017.

---

*Mae Martin Simpson yn cael clod drwy'r gwledydd am fod yn un o'r goreuon oll ymhlith canwyr gitâr acwstig a llithr, ac at hynny'n bigwr banjo tan gamp, ac mae'n artist ar ei orau oll. Pa un a ydi'n dehongli deunydd o draddodiad ynteu'n canu ei ganeuon ei hun, mae Simpson yn storïwr cyfareddol sy'n gwefreiddio o eigion calon. Does dim dau nag ydi Martin Simpson yn bencerddor sy'n perfformio'n gynnil, yn ddwys ac yn ddidwyll i'w ryfeddu a bu mawr edrych ymlaen at ei ei albwm solo newydd* Trails and Tribulations *a ryddheir ym mis Medi 2017.*

*'Simpson has become a fine interpreter of traditional and other songs, as well as a notable writer of his own.'*
**The Times**

£15* in advance, £16* on the day / *£15* ymalen llaw, £16* ar y diwrnod*
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*

£3 pint promo/ *cynnig peint £3*

* Plus a Ticket Service Charge of £3.95 per transaction
* *Yn ogystal â Thâl Gwasanaeth Tocynnau o £3.95 fesul trafodyn*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-eang ac Awyrgylch Braf

Tuesday 26 September / *Dydd Mawrth 26 Medi,* 8pm






# CAPITAL CITY JAZZ ORCHESTRA

with guest trombonist / *gyda'r trombonydd gwadd Gordon Campbell*

Formed in 2007 Cardiff's Capital City Jazz Orchestra features some of South Wales' finest jazz musicians who play regularly clubs across Wales and at festivals including Brecon Jazz. For this concert they'll be joined by **Gordon Campbell**, one of the country's leading trombone players, for a night of jazz and big band swing. Gordon, who is lead trombone with the John Wilson Orchestra and the BBC Big Band has worked with many of the world's leading performers including Ella Fitzgerald, Sarah Vaughan and Ray Charles.

---

*Yn 2007 y ffurfiwyd Capital City Jazz Orchestra Caerdydd sy'n cynnwys rhai o gerddorion jazz gorau De Cymru ac sy'n chwarae'n rheolaidd mewn clybiau drwy hyd a lled Cymru ac mewn gwyliau sy'n cynnwys Jazz Aberhonddu. Yn gwmni iddyn nhw yn y cyngerdd yma mae* **Gordon Campbell**, *un o ganwyr trombôn blaenllaw'r wlad, mewn noson o jazz a swing big band. Gordon ydi'r trombôn blaen gyda'r John Wilson Orchestra a'r BBC Big Band a gweithiodd gyda llawer o berfformwyr blaenllaw'r byd gan gynnwys Ella Fitzgerald, Sarah Vaughan a Ray Charles.*

*'The term "great" is often overused – certainly not so in Gordon's case... he is fantastic.'*
**Jiggs Whigham**

hynt

£14
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £2 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2 yr rhatach*

CAPITAL CITY
JAZZ ORCHESTRA
WALES' PREMIER BIG BAND

Tuesday 31 October / *Dydd Mawrth 31 Hydref,* 8pm



# BELLA HARDY

Bella Hardy is a singer, songwriter and fiddle player who is also the winner of several BBC Radio 2 Folk Awards including Folk Singer of the Year (2014) and Best Original Song (2012). Her 2015 solo album *With The Dawn* won universal acclaim and was followed by support spots for Mary Chapin Carpenter and a spell as the British Council's Musician in Residence in Yunnan, China. She's currently finishing work on her much anticipated new album to be released in Autumn 2017.

---

*Cantores, cyfansoddwr caneuon a ffidleres ydi Bella Hardy, sydd hefyd yn enillydd sawl Gwobr Gwerin BBC Radio 2 gan gynnwys Canwr Gwerin y Flwyddyn (2014) a'r Gân Wreiddiol Orau (2012). Roedd ei halbwm solo* With The Dawn *o'r flwyddyn 2015 yn fawr ei glod gan bawb ac fe'i dilynwyd gan hiciau cefnogi i Mary Chapin Carpenter a chyfnod yn Gerddor Preswyl y Cyngor Prydeinig yn Yunnan, Tsieina. Ar hyn o bryd mae'n gorffen gwaith ar ei halbwm newydd y bu mawr ddisgwyl amdano a ryddheir yn hydref 2017.*

*'With The Dawn – nothing short of a masterpiece.'*
**The Sunday Times**

hynt

£14 in advance, £15 on the day / *£14 ymalen llaw, £15 ar y diwrnod*
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*

£3 pint promo/ *cynnig peint £3*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf



# RUGBY AUTUMN INTERNATIONALS 2017
# *GEMAU RYGBI RHYNGWLADOL YR HYDREF 2017*

Come and watch Wales' autumn international rugby games on our big screen in our spacious Level 3 Lounge.

We'll be serving hot food in our large bar facility and we're family friendly too.

Fixtures showing:

**Saturday 11 November**

Wales v Australia KO 5.15pm

**Saturday 18 November**

Wales v Georgia KO 2.30pm

**Saturday 25 November**

Wales v New Zealand KO 5.15pm

**Saturday 2 December**

Wales v South Africa KO 2.30pm

Bars will be open 3 hours before each match.

FREE ENTRY

*Dewch i wylio gemau rygbi rhyngwladol hydref Cymru ar ein sgrîn fawr yn ein Lolfa Lefel 3.*

*Byddwn ni'n gweini bwyd twym yn ein bar mawr ac mae croeso i deuluoedd hefyd.*

*Yn dangos:*

***Dydd Sadwrn 11 Tachwedd***

*Cymru v Awstralia Cic Gyntaf 5.15pm*

***Dydd Sadwrn 18 Tachwedd***

*Cymru v Georgia Cic Gyntaf 2.30pm*

***Dydd Sadwrn 15 Tachwedd***

*Cymru vs Seland Newydd Cic Gyntaf 5.15pm*

***Dydd Sadwrn 2 Rhagfyr***

*Cymru v De Affrica Cic Gyntaf 2.30pm*

*Bydd y bariau ar agor deirawr cyn pob gêm.*

*MYNEDIAD AM DDIM*

Tuesday 21 November / *Dydd Mawrth 21 Tachwedd,* 5.30pm



# FRIGG'S FINNISH FIDDLE TUNES WORKSHOP

workshop for all string players / *gweithdy i bob chwaraewr llinynnau*

Before their Level 3 concert (see next page ) Finnish band Frigg are offering a fiddle tunes workshop for all string players, not just fiddlers! Band members offer a stirring string experience of Scandinavian tunes – jigs, reels, polkas, schottisches, waltzes – taught by ear but with the offer of scores for future reference. For next generation players, intermediate & established players. Classical, traditional, jazz and folk players all welcome.

*Cyn eu cyngerdd ar Lefel 3 (gweler tudalen nesaf) mae Frigg, y band o'r Ffindir, yn cynnig gweithdy alawon ffidil i bob chwaraewr tannau, nid dim ond ffidleriaid! Mae'r aelodau o'r band yn cynnig profiad tannau gwefreiddiol o alawon Llychlyn – yn jigiau, riliau, polkas, schottisches, waltziau – a ddysgir yn ôl y glust ond gyda chynnig sgorau i gyfeirio atyn nhw wedyn. I chwaraewyr y to sy'n codi, chwaraewyr canolradd ac sydd wedi ennill eu plwy. Croeso i chwaraewyr clasurol, traddodiadol, jazz a gwerin oll ac un.*

Workshop tickets are only available when purchasing a ticket for the Frigg concert (see next page).
*Cofiwch mai dim ond o godi tocyn i'r cyngerdd y mae tocynnau i'r gweithdy ar gael (gweler tudalen nesaf).*

hynt

£10

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-eang ac Awyrgylch Braf

Tuesday 21 November / *Dydd Mawrth 21 Tachwedd,* 8pm



# FRIGG

With four fiddles, an upright bass, guitars and mandolins the Finnish folk band Frigg have absorbed melodies and rhythms from various styles such as bluegrass, Celtic, Balkan and even heavy metal, to develop their own *Nordgrass*, a joyful mix of Nordic folk and American bluegrass. Remaining true to their roots, they draw strength from the folk music heritage of their homeland featuring musicianship of highest quality with more than a hint of mischief and wonder. It's fiddling, but not as we know it...

---

*Yn bedair ffidil, bas unionsyth, gitarau a mandolinau, llyncodd Frigg, y band gwerin o'r Ffindir, alawon a rhythmau o amryfal arddulliau megis canu'r tir glas, Celtaidd, Balcanaidd a hyd yn oed metal trwm, i feithrin eu* Nordgrass *eu hunain, cymysgfa orfoleddus o ganu gwerin Nordig a chanu'r tir glas America. Yn driw i'w gwreiddiau, maen nhw'n dwyn eu nerth o dreftadaeth canu gwerin eu mamwlad ynghyd â dawn gerddorol o'r radd flaenaf a mwy na blewyn o ddireidi a rhyfeddod. Ffidlera sydd yma, ond ar newydd wedd...*

*'This is Blazing Fiddles on steroids! If you like that style of multiple fiddles with interesting and different backings you should look out for Frigg.'*

**The Financial Times**

£15* in advance, £16* on the day / *£15* ymalen llaw, £16* ar y diwrnod*

Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*

**£3 pint promo/ *cynnig peint £3***

* Plus a Ticket Service Charge of £3.95 per transaction

** Yn ogystal â Thâl Gwasanaeth Tocynnau o £3.95 fesul trafodyn*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

Wednesday 22 November / *Dydd Mercher 22 Tachwedd,* 8pm



# TOM RUSSELL

Singer songwriter, painter, essayist, Los Angeles-born Tom Russell has recorded thirty-five highly acclaimed albums and published five books. His songs have been recorded by Johnny Cash, Doug Sahm, Nanci Griffith, kd Lang, Ramblin' Jack Elliott, Ian Tyson, Iris Dement, Joe Ely, and a hundred others. In 2015 he released the critically acclaimed 52 track folk opera *The Rose of Roscrae*, which Folk Radio UK described as 'possibly the single most important Americana release of all time'.

---

*Mae Tom Russell yn ganwr ac yn gyfansoddwr caneuon, yn arlunydd ac yn ysgrifwr, wedi recordio pymtheg record ar hugain sy'n fawr eu clod a chyhoeddi pum llyfr. Recordiwyd ei ganeuon gan Johnny Cash, Doug Sahm, Nanci Griffith, kd Lang, Ramblin' Jack Elliott, Ian Tyson, Iris DeMent, Joe Ely, a chant o gantorion eraill. Yn 2015 rhyddhaodd yr opera werin 52 trac* The Rose of Roscrae *oedd yn fawr ei chlod gan y beirniaid ac meddai Folk Radio UK amdano, 'possibly the single most important Americana release of all time'.*

*'The greatest living folk-country songwriter is a man named Tom Russell...'*

**John Swenson, Rolling Stone**

£21.50

Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*

Groups of 10 or more: £1 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1 yr rhatach*

**£3 pint promo/ *cynnig peint £3***

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

Tuesday 16 January / *Dydd Mawrth 16 Ionawr*, 8pm



# MARTYN JOSEPH

Martyn Joseph is a jaw-dropping guitar player whose unique percussive style combines with a powerful show-stopping voice. His combination of music and social commentary that speaks for many is delivered by a master craftsman often referred to as 'The Welsh Springsteen'. With a reputation for formidable live performances Martyn stands in his own right with music that's hard to categorise. He's been called folk, rock, soul, folk funk and Americana but sometimes music doesn't need a defining genre.

---

*Mae Martyn Joseph yn ganwr gitâr syfrdanol a chanddo arddull darawol ddihafal ar y cyd â llais nerthol sy'n ddigon i stopio'r sioe. Traddodir ei gyfuniad o gerddoriaeth a sylw ar gymdeithas sy'n siarad dros lawer gan feistr ar ei grefft a elwir yn aml yn 'Springsteen Cymru'. Mae Martyn yn cael y gair o roi perfformiadau byw aruthrol a saif yn ei rinwedd ei hun yn sgìl cerddoriaeth sy'n anodd ei dosbarthu. Fe roddwyd arno'r enwau gwerin, roc, canu'r enaid, ffync gwerin ac Americana ond weithiau does ar gerddoriaeth ddim angen genre i'w diffinio.*

hynt

*'Stunning, heartfelt music.'*
**Bob Harris, BBC Radio 2**

£17 in advance, £19 on the day / *£17 ymalen llaw, £19 ar y diwrnod*
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £1 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1 yr rhatach*

£3 pint promo/ *cynnig peint £3*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

Tuesday 23 January / *Dydd Mawrth 23 Ionawr*, 8pm





# CAPITAL CITY JAZZ ORCHESTRA

with guest saxophonist / gyda'r sacsoffonydd gwadd Tim Garland

Cardiff's own Capital City Jazz Orchestra are joined by internationally acclaimed saxophonist – and regular member of Chick Corea's Vigil – **Tim Garland**, for a fantastic night of jazz and contemporary big band music. One of the most versatile musicians in the UK, Tim Garland is a skilled instrumentalist; composer and bandleader, whose highly original voice and marriage of diverse influences have earned him a formidable reputation.

---

*Dyma feibion Caerdydd, y Capital City Jazz Orchestra, ac atyn nhw'r canwr sacsoffon o fri drwy'r gwledydd – ac un o aelodau rheolaidd Vigil Chick Corea –* ***Tim Garland****, i noson gampus o jazz a cherddoriaeth gyfoes big band. Mae* ***Tim Garland*** *yn un o gerddorion mwyaf amryddawn gwledydd Prydain, yn offerynnwr, yn gyfansoddwr ac yn arweinydd band celfydd, a'i lais hynod o wreiddiol a'i gyfuno dylanwadau amrywiol wedi ennill iddo fri aruthrol.*

hynt

*'Garland is quietly, but quickly becoming one of the most important British jazz musicians in years.'*
**Jazzwise**

£14
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £2 off each ticket / *Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2 yr rhatach*

CAPITAL CITY
JAZZ ORCHESTRA
WALES' PREMIER BIG BAND

Tuesday 30 January / *Dydd Mawrth 30 Ionawr,* 8pm



# AMY WADGE

Grammy-winning singer songwriter Amy Wadge has, over the course of her own albums and numerous compositions for other artists, established an outstanding body of work. Combined with a breathtaking and emotionally charged vocal range her songwriting continues to surpass most of her contemporaries.

*Drwy ei halbymau ei hun a chyfansoddiadau lawer i artistiaid eraill mae Amy Wadge, y canwr a'r cyfansoddwr caneuon a'r enillydd gwobrau Grammy, wedi meithrin corff eithriadol o waith. Ar y cyd â chwmpas syfrdanol a gwefreiddiol ei llais, mae ei chyfansoddi'n dal i ragori ar y rhan fwyaf o'i chyfoeswyr.*

'The new Joni Mitchell.'
**London Evening Standard**



# LUKE JACKSON

Luke Jackson has been making waves playing support spots to some of folk's finest. Having been favourably compared to Richard Thompson, Martin Simpson and Jeff Buckley his finely-observed narrative songs prove him to be one of the most exciting new talents on the scene.

*Bu Luke Jackson yn creu cynnwrf yn chwarae'n gefn i rai o oreuon canu gwerin. Fe'i cymharwyd yn ffafriol â Richard Thompson, Martin Simpson a Jeff Buckley ac mae ei ganeuon naratif craff yn dyst ei fod yn un o'r doniau newydd mwyaf cyffrous ar y sîn.*

'Reminds me of Jeff Buckley, which can only be a good thing.
**Mark Radcliffe, BBC Radio 2**

Two great artists in one night!
*Dau artist mawr mewn un noson!*

hynt

£14
Concessions available / *Gostyngiadau ar gael*
Groups of 10 or more: £1 off each ticket /*Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1 yr rhatach*

£3 pint promo/ *cynnig peint £3*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

EARLY NEWS / *MAES O LAW*



# CHRIS WOOD

Tuesday 6 February /
*Dydd Mawrth 6 Chwefror,* 8pm

Former BBC Radio 2 Folk Singer of the Year, Chris Wood's style of English folk, with his blend of traditional and modern song-writing, have made him a national treasure on the folk music scene.

*Bu Chris Wood yn Ganwr Gwerin y Flwyddyn BBC Radio 2 ac mae ei wedd ar ganu gwerin Lloegr, yn cyd-asio'r traddodiadol â chyfansoddi modern, wedi'i wneud yn drysor cenedlaethol ar y sîn canu gwerin.*



# CARA DILLON & SAM LAKEMAN

Tuesday 6 March /
*Dydd Mawrth 6 Mawrth,* 8pm

This husband and wife duo have successfully steered an eclectic musical path, defying the typical pigeonholes, and earning both astonishing commercial critical success.

*Dyma ddeuawd gr a gwraig sy'n cael hwyl ar dorri llwybr cerddorol eclectig, yn rhoi wfft i'r categorïau nodweddiadol, ac yn mynd â hi'n syfrdanol yn fasnachol ac ym marn y beirniaid.*



# KRIS DREVER

Tuesday 17 April /
*Dydd Mawrth 17 Ebrill,* 8pm

Winner of BBC Radio 2 Folk Awards 2017 Best Original Track and Folk Singer of the Year, Kris Drever's voice and guitar are a part of the backbone of today's contemporary roots scene.

*Kris Drever oedd enillydd Trac Gwreiddiol Gorau a Chanwr Gwerin y Flwyddyn Gwobrau Gwerin 2017 BBC Radio 2 ac mae ei lais a'i gitâr yn rhan o asgwrn cefn sîn gwreiddiau cyfoes heddiw.*

On sale soon / *Ar werth cyn hir*

Roots Unearthed
Great Acts, Global Sounds & Relaxing Atmosphere

Gwrando'r Gwreiddiau
Sioeau Gwych, Seiniau Byd-enwog ac Awyrgylch Braf

www.stdavidshallcardiff.co.uk

# WHAT'S ON / AR FYND

June 2017 – January 2018 / *Mehefin 2017 – Ionawr* 2018

**RACHEL NEWTON BAND** Tuesday 27 June / *Dydd Mawrth 27 Mehefin,* 8pm

**FOLK PROM – JOSIENNE CLARK & BEN WALKER**
featuring / *yn cynnwys* The Mavron Quartet
Monday 24 July / *Dydd Llun 24 Gorfennaf,* 8pm

**MARTIN SIMPSON**
Tuesday 19 September / *Dydd Mawrth 19 Medi,* 8pm

**CAPITAL CITY JAZZ ORCHESTRA**
with guest trombonist / *gyda'r trombonydd gwadd* Gordon Campbell
Tuesday 26 September / *Dydd Mawrth 26 Medi,* 8pm

**BELLA HARDY** Tuesday 31 October / *Dydd Mawrth 31 Hydref,* 8pm

**RUGBY AUTUMN INTERNATIONALS / *GEMAU RYGBI RHYNGWLADOL YR HYDREF* 2017**

**FRIGG'S FINNISH FIDDLE TUNES WORKSHOP**
workshop for all string players / *gweithdy i bob chwaraewr llinynnau*
Tuesday 21 November / *Dydd Mawrth 21 Tachwedd,* 5.30pm

**FRIGG** Tuesday 21 November / *Dydd Mawrth 21 Tachwedd,* 8pm

**TOM RUSSELL** Wednesday 22 November / *Dydd Mercher 22 Tachwedd,* 8pm

**MARTYN JOSEPH** Tuesday 16 January / *Dydd Mawrth 16 Ionawr,* 8pm

**CAPITAL CITY JAZZ ORCHESTRA**
with guest saxophonist / *gyda'r sacsoffonydd gwadd* Tim Garland
Tuesday 23 January / *Dydd Mawrth 23 Ionawr,* 8pm

**AMY WADGE & LUKE JACKSON** Tuesday 30 January / *Dydd Mawrth 30 Ionawr,* 8pm

CARDIFF
CAERDYDD

**St David's Hall**
**Neuadd Dewi Sant**

**029 2087 8444**
**www.stdavidshallcardiff.co.uk**